

Gwybod Eich Hawliau

Eich canllaw i Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Anabledd Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau'.

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 15**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.disabilitywales.org

E-bost: info@disabilitywales.org

Ffôn: 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon niym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.....	7
Gwybod eich hawliau.....	9
Defnyddio eich hawliau	12
Rhagor o wybodaeth.....	13
Geiriau Anodd.....	15

Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**. Ond nid cyngor cyfreithiol yw e.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** newid yn y dyfodol.

Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu hawliau Pobl Anabl.



Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r **hawl** i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r **hawl** i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.



Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.

Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol



Mae **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** am wella **llesiant** yng Nghymru. Nawr ac yn y dyfodol.



Mae **llesiant** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn maen nhw'n ei wneud.

Byddwn ni'n galw **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** yn y **Ddeddf** yn fyr.



Mae gan **Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** nodau **llesiant** mae'n rhaid i **gyrff cyhoeddus** eu dilyn.



Mae **gyrff cyhoeddus** yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.



Mae'r nodau hyn yn helpu **cyrff cyhoeddus** i wella **llesiant** pobl yng Nghymru. Gan gynnwys Pobl Anabl.

Y **cyrff cyhoeddus** mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** yw:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Gweinidogion Cymru
- Cyngorau
- Byrddau iechyd lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru.



Gwybod eich hawliau

Mae gan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** 7 nod **llesiant**:

1. I greu Cymru lwyddiannus



Dylai pawb gael **mynediad** i addysg a chyflogaeth.

Mae **mynediad** yn golygu cael mynd i rywle. Mae hefyd yn golygu eich bod yn gallu mynd i rywle yn gorfforol.



2. I ddiogelu natur

Dylai pawb allu mwynhau natur ac elwa ohono.



3. I ddiogelu iechyd pobl

Dylid ystyried llesiant corfforol a **meddyliol** pawb.

Cydraddoldeb



4. I ddiogelu **cydraddoldeb** pobl

Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg.

Dylai pawb gael cyfle teg i gael bywyd da.



5. I greu cymunedau da

Dylai pawb deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig â phobl eraill.

6. I greu diwylliant cryf



Dylid diogelu diwylliant ac iaith Cymru. Dylai pethau fel y celfyddydau a chwaraeon fod yn **gynhwysol**.



Mae **cynhwysol** yn golygu bod pawb yn cymryd rhan.

7. I ystyried gwledydd eraill



Dylai Cymru feddwl sut mae ei phenderfyniadau **llesiant** yn effeithio ar wledydd eraill. Nawr ac yn y dyfodol.



Rhaid i **gyrff cyhoeddus** ystyried y nodau hyn wrth lunio cynlluniau. A phenderfyniadau mawr.



Rhaid i **gyrff cyhoeddus** gynnwys y cyhoedd yn eu cynlluniau a'u penderfyniadau. Felly maen nhw'n gallu gwneud beth sydd orau i bawb. Gan gynnwys Pobl Anabl.

Defnyddio eich hawliau



Rhaid i **gyrff cyhoeddus** ysgrifennu cynllun **llesiant**. A'i rannu gyda phawb.



Dylai'r cynllun ddangos sut y bydd **cyrff cyhoeddus** yn cyflawni eu nodau **llesiant**. Nawr ac yn y dyfodol.



Gall **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** wirio'r cynlluniau hyn. A gwneud yn siŵr bod **cyrff cyhoeddus** yn gwneud gwaith da.



Gallwch chi hefyd wirio'r cynlluniau hyn. A gweld a yw **cyrff cyhoeddus** yn ystyried eich anghenion.



Gall **Sefydliadau Pobl Anabl** weithio gyda **chyrff cyhoeddus**. A'u helpu i wneud penderfyniadau da ar gyfer Pobl Anabl.

Rhagor o wybodaeth

Mae gan **Lywodraeth Cymru** ganllaw i **Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**:

www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/02/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

Mae gan **Lywodraeth Cymru** ganllaw i **Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol** ar gyfer pobl ifanc:

www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/160401-wfg-accessible-guide-for-young-people-en.pdf

Mae gan **Lywodraeth Cymru** ganllaw Hawdd ei Ddeall i **Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**:

gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/easy-read-a-guide-to-the-wellbeing-of-future-generations-act.pdf

Cymru a'r **Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang**:
llyw.cymru/cymru-ar-nodau-datblygu-cynaliadwy

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:
www.futuregenerations.wales/cy/

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru -
Gwiriwr Teithiau**:
www.futuregenerations.wales/cy/journey-checker-involvement

Geiriau anodd

Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg.

Cynhwysol

Mae cynhwysol yn golygu bod pawb yn cymryd rhan.

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn wasanaethau sy'n cael eu rhedeg i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG, awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, neu'r gwasanaeth tân.

Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

Lles

Mae lles yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn y maen nhw'n ei wneud.

Mynediad

Mae mynediad yn golygu cael mynd i rywle. Mae hefyd yn golygu eich bod chi'n gallu mynd i rywle yn gorfforol.

